



Tachwedd 28, edrych o Drefnant i'r dwyrain. Rwyf wedi gorfod newid ychydig ar y llun yn *PhotoShop* oherwydd wrth geisio tynnu llun y blaned lau a'r lleuad llawn roedd y lleuad yn edrych fel cylch gwyn a dim manylder arno. Felly mi dynnais lun arall o'r lleuad a'i osod dros y cylch gwyn.

**Llun a chapsiwn: Alun Williams**

Nodyn golygyddol: Nid yw'r camera byth yn dweud celwyddau - medde nhw. Mae lluniau wedi ei newid yn y cyfrifiadur gan y ffotograffydd yn hollo dderbyniol i Llên Natur wrth gwrs ond gofynnir i'r sawl sydd yn gwneud (fel yn wir y gwnaeth Alun) esbonio mai dyna wnaeth. I ddweud y gwir nid stumio yr hyn a welodd go iawn a wnaeth Alun trwy roi llun arall o'r lleuad yn lle'r gwreiddiol, ond yn hytrach cyfleu yn well beth welodd gyda'i lygad ei hun, a chywiro diffyg yng ngallu'r camera (pob camera mae'n debyg) i weld fel y llygad.

## **Vous vavez su le bord des routes des grands bouquets, de grandes fleurs rouges.**

Ca depa^sse le mètr e la filleur ét haote dés fais de pus d'un demë-metr, Ca fleurit surtout a l'eté. Cete fleur elle a nom berlu, le berlu, c'êt masqhulin. Anet, je vâs vous caozer du mot "berlu". En francaez c'êt la "digitale pourpre", "digitale" pasqe on peut mettr les dais den les fleurs (le dai se dit "digitus" en latin). O le berlu, on peut drujer a fère coti les fleurs en pincant o les deuz mains de chaqe côté de la fleur, la coue d'un côté, la goule fromee de l'aotr. E on les fèt coti den ses mains en les raperchant d'un coup.

Coment q'on dit en galo pour ce biao bouquet rouge-la? On dit berlu den toute la maitië galéne de la Haote- Bertagne. On dit etout des nunus a haot de la Haote-Bertagne. On dit a soulaire de la Haote-Bertagne "des cotiâs, des cotiards, un cotissè, des cotissiaos, des cotissouers, des cotissouâs, des cotissâs". Y'a core du monde qi dizent "des petâs, des petards, des petous, des petaods", Den le paiz de Vitre il apelent ca des gantelets.

Mes d'eyou qe vient le mot "berlu". Come ce mot n'êt qenû ren qe den la maitië galéne de la Haote-Bertagne, tout le long du separt entere le berton e le galo, on peut se demander s'i seraet pâs d'orine bertone. E si on regarde un motier de berton, on aprend qe, pour berlu, en berton on dit "brulu" ou core "bokidi nunu". Vla qi me haite. Core pus si on set q'en berton "brulu" se dit des fais "burlu". Un petit come le galo "berlu". "Brulu, burlu" q'on retreûe den le môyen berton, "bruluenn, burluenn". C'êt de cai q'on peut lire den le premier motier berton, le Catholicon, écrit en l'an catorze cent catervint-dice-neu par Jehan Lagadeuc. Gn'a ghere de chance de se tromper si on dit qe le mot berton "brulu" a la meme orine qe le galouez "briallu" qi vieût dire "plleumevaire", la premiere fleur de la belle saison. C'êt tout come drôle de pâsser de berlu a plleumevaire. C'et tout come pas la meme fleur. Terjou et-i qe c'et un mot celtiqe. Le mot galo berlu ét don un emprunt ao berton. Tant q'ao bouquet de nunu, ca fèt sonjer den le berton "bokidi nunu". "Le berton "bokidi", c'et le plluriel de "boked", qi come le galo "boqhet" ou "bouqhet" vieût dire "fleur". Pour "nunu", je ne vâs vous dire, je ne ses pas d'eyou qe vient ce mot.

Tant q'es aotrs mots galos pour berlu, "les cotias, les cotiards, un cotisse, des cotissiaos, les cotissouers, les cotissouas, les cotissas", e ben ca vient du verbe "coti" qi vieut dire casser en fezant un petit brut! Pasq'on s'amuze a les coti den les dais. Pour "les petas, les petards, les petous, les petaods" c'et biao a deviner. Ca vient du verbe "peter" pasq'on s'amuze a les fere peter den les dais.

Den le paiz de Vitre il apelent ca des gantelets pasq'on peut nen fere des petits gants tout rouges en les boutant es dais. Vaila pour le berlu aoterment apelè "digitalis purpurea" par les siancouz des erbes... Ha! Eune dêraine chôze: si vous drujéz a fère coti des bertus. Lichez don pâs vôs dais, lavéz-les don: le jus de berlu et come de la pouézon, si vous nen manjéz y'a grand risqe qe vous ariéz la berlu après!

**Pa iaith yw hon? Am ba flodyn y mae'n son yn bennaf? Os mai chi fydd y cyntaf i ateb UN o'r ddau gwestiwn hwn erbyn 15 Ionawr yn gywir trwy "Cysylltwch" ar wefan Llên Natur bydd £10 yn eich aros. Gwylwch y Bwletin nesaf am gyfieithiad.**

## “Rownd y riwbob”

Mi glywais ddywediad da gan gyfaill i mi y diwrnod o'r blaen. Cyfeirio roedd at rhywun yn mynd i bobman wrth geisio dweud stori, ac meddai “mi aethom ni rownd y riwbob sawl gwaith”. Doeddwn i erioed wedi clywed y dywediad o'r blaen; “mi aeth rownd y byd” faswn i wedi'i ddweud, ond mae'n ddywediad difyr yn dydi? Tybed oes gan rhywun arall ddywediadau tebyg yn ymwneud â byd natur?

### Crasod

Diolch yn fawr iawn i J. Heddwyn Jones, Dwygyfylchi am ei gasgliad o ddywediadau am y tywydd oer, ac yn arbennig am “cenllysg i eira – crasod i law”. Doeddwn innau chwaith wedi clywed y gair crasod erioed o'r blaen. Mae'r enw clychau iâ yn dlws iawn am y pibonwy hefyd yn tydi?

A dyma'r hyn sydd gan Heddwyn Jones i'w ddeud am grasod

Un arall a glywais lawer gwaith oedd 'cenllysg i eira - crasod i law'. Os byddai cawodydd o genllysg yn aml, roedd y rhain yn troi yn eira yn fuan. Ar y llaw arall os byddai y cawodydd yn rhai o grasod, byddent yn troi yn gawodydd glaw. Rwyf wedi son wrth aml i un am hyn. Syndod i mi oedd bod amryw ddim wedi clywed y gair 'crasod' o'r blaen.

Egluro iddynt mai nid dŵr wedi rhewi fel cenllysg oedd crasod. Mae eu ffurf fel cenllysg ond yn lliw gwyn glaerwyn, fwy fel eira wedi ei rewi. Rwyf wedi bod yn llygaid dyst i'r dywediad yma lawer gwaith.

Gyda diolch i Ann Parry Owen a Bethan Wyn Jones

## Crëyr bach wedi crogi

...mewn ywen yng nghoed Abergwynant yn ystod y gaeaf oer yna ddwy flynedd yn ôl (dim un wedi dychwelyd ers



hynny). Bron yn sicr nad trwy law dyn y gosodwyd yr aderyn fan yma. Gan mai'r ywen yma oedd yr unig goeden am bellter fyddai wedi darparu rhywfaint o gysgod yn yr heth mwyaf ofnadwy yna [gaeaf 2010], meddwl 'dw i ei bod yn ddigon tebygol i'r deryn wanhau ac wrth farw, syrthio a chrogi ei hun.

### Llun a hanes: Rhys Gwynn

Bum yn myfrio ers tro am allu'r crëyr bach, sydd yn honedig wedi dod yma

diolch i Newid Hinsawdd ffafriol, i ddygymod a thywydd oer. Gan mai aderyn deheuol ydi o, y ddamcaniaeth ydi bod y cynhesu a fu yn y ddegawd a mwy diweddar wedi caniatáu iddo ymledu o'i barthau traddodiadol a symud tua'r gogledd - sef i fan hyn, Cymru. Os felly, yn dilyn gaeaf caled fel 2010 fe ddisgwyli'd i'r boblogaeth ddiodef chwalfa. Dyma'r unig dystiolaeth y gwn i amdano o'r creyr hwn yn dioddef mewn tywydd oer (er yn profi dim wrth gwrs). Mae'r crëyr glas gyda llaw yn enwog am i'w boblogaeth ostwng yn sylweddol mewn gaeafau caled. DB

## Torfagl a hosan Siwsan.. eto




Parthed y dorfagl [Bwletin XX}, sef llygad siriol/eyebright, yr unig flodyn y gwn i amdano efo'r enw Siwsan ynddo ydi 'llygad Siwsan' – sef y fioled. Nid wyf yn meddwl ei fod yr un a 'hosan siwsan' chwaith..felly, yn ol i'r gist i chwilio amdano! Parthed y blodau yn y gyfrol Clych Atgof, OM Edwards yn argraffiad 1921, y mae'r eirfa ar gael yn nhudalennau olaf y llyfr – yn ol yr eirfa, Hosan Susan (*sic*) yw *heart's ease* [sef pansï, agos iawn i'r fioled DB] a Tor-y-fagl (*sic*) yw *eye-bright*. Os cofiaf yn iawn, clywais yr enw 'llygad Siwsan' ar y fioled gan rywun o ben Llŷn lawer blwyddyn yn ôl.

Steffan ab Owain

## Beti Williams, Cwm Cywarch

Dyma lun a hynny o fanylion sydd gen i am Beti Williams, Plas y Bont, Cwm Cywarch, Dinas Mawddwy. Mae Beti yn agor ei beibl ar fwrdd y gegin. Ymhlyg yng nghefn y beibl roedd y gerdd\* roedd Beti wedi cofnodi sy'n nodi nifer o'r enwau ar Graig Cywarch\* a gwyd tu ôl i'r fferm yn gefnlen urddasol i'r cwm. Dwn i ddim be ddywedai'r heddlu barddol am



ddefnyddio 'void' i odli gydag erioed! A pha blanhigion tybed yw dail syfria a selon? Ta waeth, roedd Beti'n gwybod lle roedd y dail beibl yn tyfu wrth odre'r graig ac yn eu defnyddio fel nod llyfr, yn y llyfr priodol wrth gwrs. Dyma un o fy hoff luniau, yn bennaf am ei fod yn mynegi yn llawer gwell nag mewn geiriau y cyfan mae'r gair "cynefin" yn ei olygu i fi - nid dim ond bodoli mewn ardal benodol, ond ei adnabod yn drylwyr o ran gallu enwi pob cornel ohono (onid yw'r gerdd ar ryw ystyr yn "canu'r tir", fel y gwnai pobl yr Aborigini?) a gwybod drwy'r adnabyddiaeth yna lle'n 'union' i fynd i ganfod planhigyn at ddefnydd. Mae'n llun athrist ar un ystyr hefyd ac yn dwyn i gof brawddeg olaf [cyfieithiad o'r Wyddeleg] Tomás Ó Criomhthain yn The Islandman - '*for the like of us will never be seen again.*'

At hynny, roedd y te a weinodd Beti'n hyfryd ond yn fwyaf cofiadwy oedd y ffordd y torrodd hi'r dorth yn yr hen ddull - dal y dorth o dan y fraich a'r gyllell yn torri tuag ati. Cofio mam yn adrodd y bennill fach yma:

Os yw'th feddwl ar briodi

Edrych ar y dorth wrth dorri.

Os yw hi fel dau gorn lleuad,

Paid a chymryd honno'n gariad.

Sut byddid yn cynghori darpar briodfab heddiw yn oes y bara tafellog, Duw a wyr!

Rhys Gwynn

\*Mwy am rhain yn y rhifyn nesaf



## Tinwen y Diffeithwch



....ar lan y mor yn ardal Y Rhyl, Tachwedd 26, 2012.

Cyfeirnod grid: SJ 034826

Ymddangosodd Tinwen y Diffeithwch ar y "prom" i'r Dwyrain o Rhyl yn ddiweddar ac yno buodd am dros wythnos, o 23/11/12 tan 30/11/12.

Llun: Eifion Griffiths

Yn arferol maent yn ffafrio cynefin lled-ddiffeithwch gyda llwyni byr yn hytrach na gwir ddiffieithwch. Mae eu tiriogaeth yn ymestyn o Ogledd Orllewin Affrica ar draws y dwyrain canol drwy Asia hyd at Fongolia. Maent i gyd yn adar mudol ond ar y cyfan mae eu teithiau mudol yn gymharol fyr ac yn tueddu i aeafu 'chydig i'r de o'u hardaloedd magu. Mae tinwen y diffeithwch yn un o'r 22 rhywogaeth o Dinwen sydd wedi troi fyny yng Nghymru. Mae'r mwyafrif o'r cofnodion ohonynt yma o gwmpas mis Tachwedd, ychydig wythnosau ar ôl i'n tinwen cyfarwydd ni fudo i'r de. Er fod dros 100 o gofnodion o'r Dinwen ddeniadol yma yn y DU, dim ond llai na deg sydd wedi cyrraedd Cymru. Yn rhyfeddol iawn roedd yr un diwethaf hefyd ar y prom wrth Rhyl union 5 mlynedd i'r diwrnod yn ôl a'r un yma.

**Sylwadau: Rhys Jones**

## Hydref y gynffon sidan



Chwith: un yn hedfan uwchben Gwarchodfa Natur Leol Rhuddlan, Rhagfyr 1, 2012.

**Llun: Eifion Griffiths**

Dde: Haid o tua 240, Sadwrn, Rhagfyr 8ed ger Felin Brwcws, Dinbych.

**Llun: Alun Williams**

## Darnau erydr

Brynddu, Llanfechell, Mon: 21 Tachwedd 1734

*Nov. 21. A boat with timber being at Cemaes from Tal y Cafn, I went there and bought ten plough bearers (or **Gwadnau eryd**) for 4d. each, six shingle trees (or **Cebystre**) for 2d. each, one master (or **Bach arad**) for 8d an ash plant that would make two plough beams (for **Arnoddau**) for 2/6 ; two spades for 6.5 a piece, and two shovels (or **Camrawie**) for 6.5 a piece; thirteen Joyces about 6 foot long for 7d. a piece.*

Trans. AAS&FC 1931 (The Diary of William Bulkeley of Brynddu, Anglesey: Owen, H & Griffiths JE)

Mae hwn yn awgrymu bod William Bulkeley yn medru'r Gymraeg

## Drws y Coed



Llyn y Dywarchen a hen dŷ Drws-y-Coed ar ei draed (fe'i chwalwyd i neud maes parcio sgotwrs). O'r ty yma aeth y teulu William Griffith i'r Iwerddon. Ar yr ochor dde olion hen stabal sydd yna.

Cyfrannwyd y llun a'r sylw gan Elinor Roberts (ond pwy a'i paentiodd tybed? Ai'r enw P. Quint sydd yng nghornel dde isaf y llun?)

Gweld fod yna ddau adeilad yma, ai yn un o rhain yr aeth teulu'r Griffith i'r Iwerddon, a daeth un o'r disgynyddion i fod yn sylfaenydd Sinn Fein, sef Arthur Griffith? Sylwi bod yna ryw fath o olion ar yr ochr dde y ffordd heddiw.

## Rupert Hatton yn Nhibet

Dyrnu gyda fustion fel yma ers llawer dydd, tynasis y llun yn Tibet yn 2007



Dull da o gael gwres yn sydyn. Sylwch ar y tegell yn y canol yn berwi mewn mynydau, hawdd i'w symyd i fan arall os oedd eisiau



**Lluniau: Rupert Hatton**


## Mantell y Brodyr

3 Rhagfyr 1770; Dolgellau:

*...work [on?] the upper part is from the bottom of the level where **the Friars Coat** was got - but as I told you in my last [letter], the snow and the winds are such that the men cannot work there yet - so high on the mountain*

Dyddiadur Elizabeth Baker (Llyfrgell Genedlaethol) Roedd EB yn berchen ar fwynfeydd yn ardal Dolgellau. Tybed beth yw'r "friar's coat"? O Abaty Cymer tybed?

## Llifogydd Tachwedd 2012



*The difference between our figures [chwith: HHJ Waunfawr, sh528594 a IDW Llanfaglan, sh469600] demonstrate clearly the effect of altitude on rainfall and the orographic effect of uplifting of moist air as it passes over the hills.*

*This effect seems to have been more marked during the week of the heavy rains of 22-28 Nov, and also on the day of the flooding 22 Nov. This seems to add some support to my theory that the sudden heavy rainfall event between approx 13.25 & 13.40GMT on 22 Nov 2012 was further intensified by uplift of air as it passed over the Groeslon, Rhosgadfan, Waunfawr, Llanberis districts, resulting in the extraordinary flooding of those districts. It is of interest that the notoriously wet Capel Curig recorded 43.2mm on the 22nd, suggesting that the heaviest rain fell on the Waunfawr-Llanberis area of the hills.*

*I've been re-examining the hourly data from my auto weather station, and note the following (which came up in conversation between a Waunfawr resident & myself.) She said there were two distinct "bursts" of heavy rain, first around 12.30, then the second about 1330. My data shows that 15mm fell between 1200 & 1300, and 20mm fell between 1300 & 1400. I think the first heavy burst of rain possibly laid the groundwork for the second damaging fall, by ensuring the ground was so saturated that when the heavier burst came at 13.30 the rain had nowhere to go but straight downhill. Added to that the rain fell so fast it literally flowed down the hillsides.*

*A final thought. I've spoken with quite a few people since the flooding, and they, like me, are surprised at the rainfall amount that fell that caused such mayhem. We all thought the amount was much higher than it actually was; that is, inches of rain rather than the 20mm (0.8in) between 1300 & 1400 or the 35mm(1.4in) if you take the 1200 -1400 period. I'd think that if a similar amount fell in the summer it wouldn't have had the same devastating effect, the drier warmer ground would probably have been able to absorb it better.*

Llun a sylw: Huw Holland Jones

## Llên Natur a'r Wicipedia Cymraeg...

### Gwasanaeth newydd

Rydyn ni wedi cwblhau bellach yn Wicipedia pob un o'r Gwyfynod a Glöynnod Byw sydd ar restr Cymdeithas Edward Llwyd ar wefan Llên Natur. Wnei di dynnu sylw'r darllenwyr i hyn, os gweli di'n dda. I'w canfod, y cwblw sydd angen i ddarllenwyr ei deipio ydy'r ddwy ddolen hon:

[www.wicipediacymraeg.org](http://www.wicipediacymraeg.org) ac yna, yn y blwch chwilio: [Rhestr gwyfynod a glöynnod byw](#). Mae croeso i chi (arbenigwyr) eu newid neu ychwanegu gwybodaeth drwy glicio'r tab 'Golygu'. Mae cyfartaledd o 2.7 miliwn o dudalennau'r mis yn cael eu hagar ar y Wicipedia Cymraeg.

Robin Llwyd ap Owain

Dipyn o sgwp i Llên Natur felly. Am bob gwyfyn a glöyn ym Mhrydain cewch wybod yn Gymraeg manylion cyffredinol am ei ffordd o fyw. Rhowch gynnig arni (Gol.)

## Glaw Tachwedd, Llechryd, Aberteifi



Rwy'n byw yn Llechryd yn agos at Afon Teifi (ond rhyw 50 troedfedd uwch ei phen – diolch byth) sy'n 3 milltir i'r dde-ddwyrain o Aberteifi. Mae'r glaw blynyddol ychydig dros 100mm ar gyfartaledd – rydyn ni yng nghysgod glaw y Preseli, rwy'n tybio. Mae'r afon yn mynd i mewn i Geunant Cilgerran ger hen bont Llechryd (18g.) dros yr afon sy'n tueddu i orlifo ar y caeau ar ôl glaw trwm yn enwedig am fod hanner isaf y ceunant yn llanwol – does unman arall i'r dŵr fynd. Gellir nodi efallai bedair lefel o orlifo:

1. Dros y caeau yn unig
  2. Dros y ffyrdd bychain o bobtu'r afon hefyd
- Mae 1. a 2. yn digwydd bob blwyddyn bron.
3. Dros y bont hefyd
  4. Dros y ffordd fawr i Aberteifi (ac efallai i mewn i'r tai wrth ei hochr)

Mae 3. a 4. yn brinnach wrth gwrs.

Dyma fanylion y glaw yn ddiweddar:

19/11	13mm
20/11	8.6mm
21/11	10.2mm
22/11	34mm
23/11	3mm
24/11	21mm

Y canlyniad yw llifogydd lefel 2 – gw. llun. Dwi'n synnu nad yw'r afon wedi gorlifo mwy - doedd pethau ddim yn waeth y bore 'ma na dydd Gwener er gwaetha' glaw dydd Sadwrn.

Howard Williams

## Rhag mynd yn anghof...



llun: Alun Williams

....i'r rhai mwy ffodus yn ein plith.

Maes parcio tafarn y Talardy ac ardal y Ro, Llanelwy dan fetr o ddwr. Tachwedd 27.

**Gallwch gyfrannu arian i'r ddwy gronfa i roi cymorth i'r rhai a ddiodefodd y llifogydd hyn yn Rhuthun a Llanelwy, manylion yma:-**  
<http://www.denbighshire.gov.uk/cy-gb/dnap-92hm3r?opendocument&lang=cy-gb>